FFORWM MYNEDIAD LLEOL WRECSAM

Adroddiad Blynyddol
am y Flwyddyn at 31 Mawrth 2009

Rhagair Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Mae Fforwm Mynediad Lleol Wrecsam wedi dal i ymwneud â materion cefn gwlad a hawliau tramwy ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol ac mae wedi ceisio datblygu dealltwriaeth o'r gwrthdrawiadau all fod rhwng defnydd y cyhoedd o gefn gwlad a'r gymuned amaeth sy'n ennill bywoliaeth o'r tir.

Mae Fforwm Mynediad Lleol Wrecsam wedi gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i gynorthwyo cyflawni'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ac wedi cynghori ar y Cynllun Gweithredu Blynyddol. Rwy'n diolch i holl aelodau'r Fforwm am eu gwaith da dros y flwyddyn aeth heibio.
Martin Howorth, Rheolwr Parciau, Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy

Adroddiad Cadeirydd Fforwm Mynediad Lleol Wrecsam

Cyflwyniad

Sefydlwyd Fforwm Mynediad Lleol Wrecsam gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ym mis Tachwedd 2002, yn ôl gofynion Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (CROW). Swyddogaeth statudol y Fforwm yw cynghori Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac eraill ynghylch gwella mynediad cyhoeddus i dir yn y cylch at ddibenion adloniant a mwynhad yr ardal. Wrth wneud hyn rhaid i'r Fforwm roi ystyriaeth briodol i anghenion rheoli tir a harddwch naturiol yr ardal.

Rhaid i aelodaeth y Fforwm ddangos cydbwysedd rhwng amrywiol ddefnyddwyr hawliau tramwy cyhoeddus a thir mynediad ar y naill law, a pherchenogion neu ddeiliaid tir mynediad neu dir â hawliau tramwy lleol arnynt, ar y llall. Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gynrychiolydd yn y Fforwm, ac mae'n darparu Ysgrifennydd.

Mae pob cyfarfod o'r Fforwm ar agor i'r cyhoedd, ac mae dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf i'w cael yn www.wrecsam.gov.uk/laf

ADRODDIAD BLYNYDDOL

Bwriad yr adroddiad hwn yw rhoi crynodeb o waith y Fforwm. Caiff ei gofnodion eu cyhoeddi ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Gwaith y Fforwm yn y flwyddyn at 31 Mawrth 2008

Aelodau Fforwm Mynediad Lleol Wrecsam

Cadeirydd Gweithredol - Mabyn Pickering. Ymddiswyddodd Clive Menzies, y Cadeirydd blaenorol, oherwydd afiechyd.

John Cooper-Poole, Mike Crawshaw, Sue Gittins, John Marchant (CBSW), Shelagh Roberts, Gerald Moss, Edward Wardle, Karl Prakel, Margaret Murphy, Mavis McBride. Gwynfor, D Jones.

Ysgrifennydd - Emma Haldane

Beth sydd raid i'r Fforwm ei wneud?

Mae swyddogaethau statudol y Fforwm yn rhannu'n ddau ddosbarth bras sy'n gorgyffwrdd i ryw raddau:

(a) Yn rhoi cyngor ar fynediad i dir a ddynodwyd fel "tir mynediad" dan Ddeddf Hawliau Tramwy Cefn Gwlad a chadw golwg gyffredinol ar hynny. Yn arbennig, rhaid iddo gynghori ar unrhyw gynnig gan dirfeddiannwr i gwtogi mynediad am gyfnod hwy neu am resymau heblaw'r rhai sy'n cael eu caniatáu gan y Ddeddf.

(b) Rhoi cyngor ar gynnal a gwella hawliau tramwy.

Sut mae'r Fforwm yn gwneud hynny?

Mae'r Fforwm wedi mabwysiadu patrwm o bedwar cyfarfod bob blwyddyn. Eleni, cynhaliwyd dau o'r cyfarfodydd yn Neuadd y Dref, a dau yn y "maes". Cynhaliwyd un o'r rhain ym Mrymbo, ar ôl cael tro o amgylch y pentref i weld gwaith hawliau tramwy ar y gweill. Roedd y llall yn Owrtyn ar ôl cerdded o gwmpas rhai o'r llwybrau troed yn y cylch.

Rhoddodd y ddau gyfarfod maes gyfle i gyfarfod pobl sy'n byw'n lleol, sy'n ddefnyddwyr neu sy'n cynorthwyo cynnal hawliau tramwy.

Mae Deddf Hawliau Tramwy Cefn Gwlad yn rhoi pŵer i LAF benodi is-bwyllgorau i ddelio â phynciau arbennig. Hyd yma nid ydym wedi teimlo'r angen i wneud hyn ac wedi bod yn awyddus i osgoi "ymlusgo biwrocrataidd". Oherwydd arwynebedd cymharol fychan CBSW mae modd cynnal cysylltiadau personol da gyda swyddogion perthnasol y Cyngor, yn enwedig Ysgrifennydd LAF. Gallwn hefyd gadw cysylltiadau da gyda'n gilydd, fel bod y bobl briodol yn gallu cyfarfod pan fydd unrhyw fater arbennig angen sylw.

Gwaith mewn cysylltiad â thir mynediad

Yn ystod eleni nid oedd unrhyw geisiadau ffurfiol gan berchenogion tir mynediad i gyfyngu ar fynediad am gyfnodau hir. Mae CBSW wedi defnyddio pwerau Deddf Hawliau Tramwy Cefn Gwlad i benodi Wardeiniaid ar dir mynediad. Mae Siôn Roberts a Dave Smith yn gweithio ar dir mynediad a hawliau tramwy cyhoeddus. Byddant yn cyflwyno adroddiad yng nghyfarfodydd y Fforwm naill ai'n bersonol neu drwy gynrychiolydd CBSW gan roi cyfle i'r Fforwm drafod unrhyw faterion cysylltiedig â thir mynediad sy'n cael eu codi gan y wardeiniaid neu aelodau'r Fforwm.

Gwaith mewn cysylltiad â Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (ROWIP) sy'n rhoi'r fframwaith ar gyfer gwaith CBSW mewn cysylltiad â hawliau tramwy. Cwblhawyd hwn yn 2007 ar ôl ymgynghori helaeth â'r cyhoedd, gan gynnwys cyfraniad y Fforwm. O'r cynllun hwn caiff cynlluniau gwaith blynyddol eu datblygu, gan fesur gweithgaredd gyferbyn â thargedau penodol fel bod modd adolygu cynnydd yn gyfnodol ac, yn arbennig, ar ddiwedd bob blwyddyn. Cyfrifoldeb CBSW yw gweithredu'r cynllun, ond mae'n hysbysu ac ymgynghori â'r Fforwm ynghylch cynnydd, ac mae'r Fforwm yn mynegi barn yn rhydd ar unrhyw faterion o bwys. Mae'r Fforwm yn cefnogi'r swyddogion ble bynnag y gall, er enghraifft trwy ysgrifennu fel corff at Brif Weithredwr y Cyngor pan fo angen.

Weithiau caiff problemau perthnasol i hawliau tramwy arbennig eu tynnu i sylw'r Fforwm, ac mae aelodau unigol gyda gwybodaeth uniongyrchol am y broblem wedi bod yn flaenllaw wrth geisio ei datrys. Yn ystod y flwyddyn bu

problemau arbennig ar lwybr yn Legacy ac ar Lwybr Maelor wrth Bont Nant y Cregyn.

Arolygon

Fel rhan o ddymuniad LAF Wrecsam i fod yn fwy rhagweithiol, mae aelodau wedi gwirfoddoli i gynnal pum arolwg y flwyddyn o gymunedau lleol i sicrhau bod yr awdurdod penodi'n cyflawni ei ofynion yswiriant. Mae hwn yn brosiect parhaol.

Mae mwyafrif aelodau'r Fforwm yn perthyn i gyrff eraill ac mae modd i'w profiad a chysylltiadau o'r cyrff hyn ddylanwadu ar waith y LAF.

Cysylltiadau â LAF eraill

Bydd Cadeirydd LAF Wrecsam yn mynychu cyfarfodydd Cadeiryddion LAF yng Nghymru a daeth ein cyn-gadeirydd, Clive Menzies, yn Gadeirydd y grŵp hwn a gwneud llawer o waith yn genedlaethol. Yn anffodus, gorfodwyd ef gan afiechyd i roi'r gorau i'r swydd hon, yn ogystal â bod yn Gadeirydd ac aelod o LAF Wrecsam ym mis Mehefin 2008. Trwy gyfranogiad ein Cadeirydd yn y cyfarfodydd cenedlaethol rydym yn cael clywed am faterion o fwy na phryder lleol, ac yn derbyn newyddion am weithgareddau LAF eraill.

Rydym wedi bod yn pryderu ynghylch rhai materion trawsffiniol gydag awdurdodau cyfagos, yng Nghymru ac yn Lloegr. Er enghraifft, llwybrau troed neu lwybrau ceffylau sy'n edrych fel petaent yn dod i ben ar y ffin. Cytunwyd ysgrifennu at LAF am y ffinio i awgrymu sefydlu grwpiau bach o aelodau LAF perthnasol i geisio datrys unrhyw faterion o'r fath. Cafwyd atebion cadarnhaol oddi wrth bob un ond un o'r LAF eraill dan sylw.

Cysylltiad â Chyngor Cefn Gwlad Cymru

Bydd cynrychiolydd CCGC yn mynychu cyfarfodydd LAF yn rheolaidd ac yn dweud wrthym am waith cyfredol CCGC ac unrhyw faterion perthnasol.

Materion eraill a archwiliwyd

Mae gwaith a phryderon llawer o gyrff eraill yn berthnasol i rai'r LAF ac, er mwyn dysgu mwy a chreu cyfle i gael trafodaeth gytbwys â'r rhai dan sylw, rhoddodd amryw grwpiau eraill gyflwyniadau yng nghyfarfodydd LAF. Yn ystod 2008/09 cafwyd y cyflwyniadau canlynol:

- David Rogers o'r Grŵp Mynediad Adloniadol i Gefn Gwlad ar eu gweithgareddau.

- Matt Strickland, Ymgynghorydd Polisi / Proses Adloniant a Chamlesi i Asiantaeth yr Amgylchedd, Cymru ar waith ar y gweill.

- Rhoddodd Helen Cook, Uwch-swyddog Iechyd Amgylcheddol, a Wayne Hughes, Uwch-swyddog Gorfodaeth Amgylcheddol, gyflwyniad ar y ddeddfwriaeth newydd berthnasol i Orchmynion Rheoli Cŵn. Mae rheoli cŵn, yn enwedig ar dir amaeth a lle caiff adar helwriaeth eu rheoli, yn peri cryn bryder i aelodau LAF ond, hyd yma, ni chafwyd unrhyw ffordd ymarferol o gadw trefn ar berchenogion cŵn anystyriol.

- Ar ran marchogion, amlinellodd Tim Stratton rai o'r problemau sy'n eu hwynebu, yn enwedig pan fyddant yn gorfod mynd ar hyd ffyrdd prysur i gyrraedd llwybrau ceffylau. Roedd Mathew Ellison, o Gludiant a Rheoli Asedau, yn y cyfarfod hwn a dywedodd y byddai'n edrych ar sut allai'r Cyngor cynorthwyo datrys rhai o'r problemau y soniwyd amdanynt.

- Mynychodd Zara Lomax, Ecolegydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, gyfarfod i ddweud wrth LAF Wrecsam am ei gwaith fel ecolegydd i'r Cyngor.

Gorchmynion Addasu'r Map Diffiniol

Mewn blynyddoedd blaenorol mae LAF Wrecsam wedi mynegi ei bryder ynghylch diffyg cynnydd wrth gwblhau'r DMMO hyn. Gyda phenodi Sean Hanratty gan CBSW i ganolbwyntio ar y gwaith hwn mae cynnydd yn cael ei wneud bellach. Mae Mr Hanratty wedi gofyn i'r LAF wneud cynnig am gysylltiadau llwybrau ceffylau newydd. Mae'r Cadeirydd yn mynd ar drywydd hyn.

Rhaglen waith 2009/10

Yn ystod y flwyddyn a ddaw, mae LAF Wrecsam yn disgwyl edrych ar, ystyried a gwneud argymhellion i'r awdurdod penodi yn y meysydd canlynol:

Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy (ROWIP)
Mapiau Diffiniol a Gorchmynion Addasu'r Map Diffiniol
Mapio Rhyngweithiol
Ceisiadau Cynllunio
Cyllidebau ac Adnoddau
Mynediad at Ddŵr Mewndirol